Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol y Gors

**Canolfan Addysg Step Ahead**
**Rhodfa'r Gors**
**Cocyd**
**Abertawe**
**SA1 6SF**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol y Gors

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol y Gors |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | * |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 322 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 224 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 50 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 48.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 9.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 23.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/09/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau islaw'r lefel ddisgwyliedig, yn enwedig mewn medrau iaith, cyfathrebu a chymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod. Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi ymrwymo i wella lles disgyblion a chodi safonau. Ceir ymdeimlad cynyddol o waith tîm, gyda ffocws ar y cyd ar greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, ar y cyfan. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ac mae disgyblion hŷn yn cynhyrchu ysgrifennu strwythuredig a difyr yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn dechrau sefydlu ymagwedd fwy cyson at addysgu darllen. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn darllen yn ddigon da, na gyda rhuglder a dealltwriaeth addas.

Mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso'u medrau yn hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad creadigol, corfforol, a digidol, a disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau codio a gwaith amlgyfrwng. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i gryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws yr holl grwpiau blwyddyn, ond nid yw disgyblion hŷn yn hyderus yn siarad Cymraeg.

Mae lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol, ac mae staff yn darparu amgylchedd meithringar sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae ymddygiad yn dda, ar y cyfan, ond ceir achosion o ychydig o darfu mewn gwersi, ac nid yw staff yn rheoli hyn yn effeithiol bob amser. Yn ychwanegol, nid yw'r addysgu ar draws yr ysgol bob amser yn rhoi digon o her i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn dysgu.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn gosod targedau defnyddiol ar gyfer gwella. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon trylwyr ar ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, maent yn gweithio'n effeithiol gyda staff i wella arweinyddiaeth ar bob lefel, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyfeiriad yr ysgol. Mae arweinwyr wedi meithrin perthnasoedd cryf â rhieni, gan ddarparu boreau coffi a gweithdai rheolaidd. Mae'r ysgol yn cryfhau ei chyfathrebu â rhieni ymhellach i sicrhau bod pob un ohonynt yn teimlo'u bod yn cael eu hysbysu a'u cynnwys ym mywyd yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Mireinio prosesau gwerthuso i ganolbwyntio'n agosach ar wella cysondeb addysgu effeithiol ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael eu herio'n ddigonol ac yn mynd ati i ymgysylltu â'u dysgu

A2 Gwella ymagweddau at addysgu darllen ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau'n briodol

A3 Parhau i wella presenoldeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol, mae medrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu'r mwyafrif ohonynt islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn gweithio'n dda i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau llafaredd. Mae staff yn y dosbarthiadau sylfaen yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut orau i gefnogi dysgu disgyblion iau. Maent yn modelu iaith yn effeithiol ac yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud dewisiadau, cychwyn eu chwarae eu hunain, a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymestyn eu medrau iaith a chymdeithasol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn ystyriol ac yn cyfiawnhau eu safbwyntiau, er enghraifft wrth drafod beth sy'n gwneud ffrind da.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn dechrau cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen. Mae athrawon yn y dosbarthiadau iau yn darparu ardaloedd darllen deniadol ac yn defnyddio mapiau stori yn effeithiol i feithrin dealltwriaeth disgyblion o strwythur stori. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion iau yn ail-ddweud neu'n ail-greu storïau cyfarwydd yn hyderus. Mae arweinwyr a staff yn dechrau datblygu ymagwedd gyson at addysgu darllen cynnar, yn cynnwys ymagwedd systematig at ddatblygu gwybodaeth disgyblion am ffoneg. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r ymagwedd hon, ac er bod disgyblion iau yn dysgu defnyddio seiniau llythrennau cychwynnol yn llwyddiannus, mae lleiafrif ohonynt yn cael trafferth wrth gyfuno seiniau i ffurfio geiriau. Mae disgyblion hŷn yn ceisio darllen geiriau anghyfarwydd trwy seinio geiriau ar goedd neu ofyn am gymorth, ond, ar y cyfan, mae lleiafrif ohonynt yn cael trafferth darllen yn annibynnol gyda rhuglder neu ddealltwriaeth addas.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion iau arbrofi â chreu marciau ac yn ymarfer ffurfio eu llythrennau yn gywir. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy lythyrau perswadiol a thestunau cyfarwyddol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynnwys paragraffau trefnus ac yn ymgorffori ystod o dechnegau, fel cwestiynau rhethregol, i ychwanegu diddordeb at eu gwaith.

Mae staff yn cefnogi datblygiad creadigol a chorfforol disgyblion yn dda. Mae disgyblion iau yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gweithgareddau creadigol, fel creu cadwyni toes chwarae a chreu portreadau o ddeunydd naturiol. Mae disgyblion hŷn yn dyfnhau eu dealltwriaeth greadigol wrth beintio yn arddull pobl frodorol, gan gyfuno mynegiant artistig yn effeithiol ag adrodd stori.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd cryf wrth amgyffred cysyniadau mathemategol allweddol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio medrau rhifedd yn hyderus ac yn eu cymhwyso mewn cyd-destunau bywyd go iawn, fel data graffiau ar gyfer prosiect Wythnos Fenter. Mae medrau digidol disgyblion wedi'u datblygu'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu cod syml i wneud gemau neu ddyfeisiau rheoli a chreu prosiectau amlgyfrwng difyr, fel animeiddiadau stop-symud ar wrthfwlio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain trwy'r Criw Cymraeg. Mae arweinwyr a staff wedi gwella'r ddarpariaeth yn ddiweddar i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd addas. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'r iaith yn ddigon hyderus, ac maent yn cael trafferth gofyn cwestiynau neu ymateb iddynt gan ddefnyddio patrymau iaith priodol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cyfleu'r deilliannau dysgu bwriadedig yn glir, ac yn defnyddio cwestiynau'n dda i werthuso a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Maent yn darparu adborth defnyddiol, ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r adborth hwn yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ailddrafftio eu hysgrifennu neu wella ansawdd eu gwaith celf. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn amrywiol. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw staff bob amser yn paru dysgu'n ddigon da â chamau nesaf y disgyblion, gan arwain at her a chynnydd annigonol. Yn ychwanegol, nid yw staff bob amser yn mynd i'r afael ag ymddygiad disgyblion yn briodol yn ystod gwersi, ac o ganlyniad, tynnir sylw disgyblion ac maent yn colli diddordeb yn eu dysgu.

Mae cwricwlwm yr ysgol, sy'n cael ei yrru gan y weledigaeth 'Dychmygu'r Byd,' wedi'i gynllunio i godi dyheadau a hyrwyddo ymgysylltu. Mae'n adlewyrchu anghenion a diddordebau'r gymuned leol yn dda, gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion archwilio materion lleol a byd-eang, a beth mae'n ei olygu i fod yn rhan o gymuned gynhwysol ac amrywiol trwy destunau fel 'Pawb Gyda'i Gilydd'. Mae staff yn sicrhau bod ffocws addas ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, gan ddathlu'r disgyblion hynny sy'n ymgorffori gwerthoedd yr ysgol. Mae ymweliadau ac

ymwelwyr yn cyfoethogi profiadau dysgu ac yn dathlu amrywiaeth, er enghraifft trwy ddigwyddiadau rhannu bwyd sy’n adlewyrchu treftadaeth y gymuned.

Mae’r ysgol wedi gweithio gydag ymroddiad i ddatblygu ethos o ofal a chynwysoldeb, gan sicrhau bod disgyblion yn teimlo’n hapus, yn ddiogel, a’u bod yn cael cefnogaeth. Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau trylwyr ar gyfer nodi a chynorthwyo disgyblion ag anghenion cymhleth, ac mae bron pob un o’r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd i gefnogi’r gwaith hwn. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang o raglenni ymyrraeth i gefnogi lles disgyblion, gan gynnwys defnydd effeithiol o’r ystafell ‘Heulwen’ i helpu disgyblion i reoli eu hemosiynau. Fodd bynnag, er bod disgyblion weithiau’n cael eu tynnu allan o wersi i gael cymorth ychwanegol, nid yw’r ddarpariaeth hon bob amser yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, nid yw’r gweithgareddau a ddarperir a’r ymagweddau at addysgu bob amser yn gweddu i anghenion disgyblion, sy’n cyfyngu ar eu cynnydd.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol ac yn cael cefnogaeth dda gan uwch dîm arweinyddiaeth ymroddgar. Gyda’i gilydd, maent yn sicrhau bod diwylliant cynyddol o gydweithio ar draws yr ysgol, ac o ganlyniad, mae staff yn gweithio gyda’i gilydd yn dda gyda synnwyr o ofal am ei gilydd, a phenderfyniad i sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

**Ciplun: Ysgol sy’n ganolog i’w chymuned**

Mae’r ysgol yn gweithio’n galed i gryfhau ei rôl yn y gymuned, trwy gynnig ystod o fentrau i gefnogi teuluoedd ac ymgysylltu â nhw. Maent yn cynnal gweithdai, fel sesiynau mathemateg a darllen, i arwain rhieni wrth gynorthwyo’u plant. Mae arweinwyr yn cynnal boreau coffi, sy’n rhoi cyngor i rieni, a mynediad at ystod o asiantaethau allanol, yn ogystal â sefydlu rhwydwaith o gymorth y naill i’r llall. Mae’r ysgol wedi cyflwyno *Pantri Pawb*, sef banc bwyd, ynghyd ag apêl hamperi Nadolig a theganau i deuluoedd mewn angen. Mae wedi trawsnewid ei hystafelloedd cymunedol yn gaffi, llyfrgell a chanolfan adnoddau, lle gall rhieni gael bwyd, dillad a deunyddiau dysgu. Trwy’r ymdrechion hyn ac uchelgais i gryfhau’r ddarpariaeth hon ymhellach, mae’r ysgol yn dod yn hyb hanfodol, sy’n cynnig cymorth ymarferol ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn i bawb.

Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl hanfodol mewn darparu her a chymorth i’r ysgol. Mae ychydig o lywodraethwyr yn ymweld â’r ysgol i gael tystiolaeth uniongyrchol o gynnydd tuag at flaenoriaethau cenedlaethol, ac mae’r ymweliadau hyn yn dechrau helpu arweinwyr i fonitro a gwerthuso gwelliant yr ysgol. Maent yn cydnabod bod angen dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn ehangach ar draws y corff llywodraethol a chryfhau rôl rhiant-lywodraethwyr yn yr ysgol ymhellach.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o ddulliau gwerthusol yn effeithiol, fel teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau, i asesu blaenoriaethau’r ysgol. Mae llawer o staff yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn yr ysgol, sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella’r ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr y cwricwlwm yn llunio adolygiadau defnyddiol o’u meysydd cyfrifoldeb, ac mae’r rhain yn dechrau nodi’r cysylltiad rhwng

addysgu o ansawdd da a gwelliannau yn nysgu'r disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barnau cywir ynghylch ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn nodi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol, er enghraifft i wella medrau darllen disgyblion.

Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel bob amser yn sicrhau bod ffocws digon craff ar feysydd pwysig o addysgu sydd angen eu gwella, fel ansawdd ac effeithiolrwydd profiadau dysgu. Mae arweinwyr yn cysylltu cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol i athrawon gydweithio â chydweithwyr mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, nid yw dysgu proffesiynol bob amser yn canolbwyntio'n ddigon agos ar elfennau o addysgu sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n briodol. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnwys adnoddau addas, ac mae arweinwyr yn defnyddio grantiau fel y grant datblygu disgyblion i sicrhau bod lefelau staffio addas sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion, er enghraifft trwy ddatblygu rôl y swyddog cyswllt â theuluoedd i gynorthwyo teuluoedd a gwella lles a phresenoldeb eu plant. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn gwella presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn parhau'n is na'r disgwyl, ac mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn ddigon rheolaidd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch ar y safle yn peri unrhyw bryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2024